**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

1 Ebrill 2025

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad ynghylch ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gwnaethom nifer o argymhellion sy'n ymwneud â gwella'r modd y caiff y gyllideb ei chyflwyno. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> "Casgliad 1. *Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn Adolygiad o Wariant Cymru a chylch cyllideb 2026-27 i archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd, er mwyn lliniaru effaith cyfnod craffu wedi'i gwtogi."*

O ganlyniad, wrth fyfyrio ar y profiad o graffu ar y gyllideb eleni, ac wrth geisio gwella'r ddogfennaeth gyllidebol a gaiff ei darparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 a thu hwnt, byddwn yn gwerthfawrogi cael barn eich pwyllgor ar y cwestiynau a ganlyn:

- Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy’n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog? Yn eich ymateb, dylech gyfeirio at amseroldeb, ansawdd a defnyddioldeb unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth sydd wedi dod i law.

- Bydd Adolygiad o Wariant y DU, a gaiff ei gyhoeddi ar 11 Mehefin 2025, yn darparu cyllid dangosol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. O ystyried hynny, a oes gennych unrhyw farn ar y wybodaeth y byddai ei hangen arnoch o ran yr Adolygiad o Wariant ar gyfer Cymru a fydd yn dilyn, naill ai i ategu dogfennaeth y gyllideb neu fel ymarfer ar wahân?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 23 Mai 2025. Yna, bydd eich sylwadau’n cael eu coladu a’u rhoi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, i’w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau’r Gyllideb ar gyfer 2026-27, a gaiff ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gaiff ei chynnal cyn toriad yr haf.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.